

<b>Adroddiad i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	14 Rhagfyr 2021
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol - Y Cyngorydd</b>	Huw Hilditch-Roberts
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Geraint Davies
<b>Teitl</b>	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu trosolwg o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd sy'n amlinellu sut fydd y Gymraeg yn cael ei datblygu yn ein hysgolion dros y 10 mlynedd nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2021 gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gofyniad i greu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'n ofyniad statudol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gael Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y cynllun newydd sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd yn ymdrin â 10 mlynedd hyd at 2032 (gweler atodiad 1).

4.2. Mae pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn dilyn yr un canllawiau ac yn cael eu trefnu'n seiliedig ar saith canlyniad. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu siwrnai addysg y dysgwr ac yn gyson â blaenoriaethau Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru. Cenhadaeth ein Cenedl.

Canlyniad 1: Rhagor o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Canlyniad 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Canlyniad 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Canlyniad 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

4.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob Awdurdod Lleol gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn 1 sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed is ar gyfer Sir Ddinbych yw 37% a'r targed uwch yw 41%. Yn 2021, roedd 27% o ddisgyblion blwyddyn 1 yn Sir Ddinbych yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.4. Mae'r Cynllun newydd yn nodi sut bydd Sir Ddinbych yn diwallu targed Llywodraeth Cymru drwy gynyddu'r capasiti mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a newid dynodiad iaith rhai ysgolion cyfrwng Saesneg.

4.5. Mae'r cynllun newydd hefyd yn nodi'r saith canlyniad a restrwyd yn 4.2 gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Lle rydym ni arni yn awr?
- Lle rydym ni'n anelu i fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a beth rydym yn ei gynnig er mwyn cyrraedd y cam hwnnw?
- Lle y disgwyliwn fod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

- 4.6. Bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022 i dderbyn cymeradwyaeth. Bydd Llywodraeth Cymru naill ai'n cymeradwyo'r cynllun, ei gymeradwyo gyda diwygiadau neu ei wrthod. Os yw'n cael ei wrthod, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynllun i'r Cyngor ei weithredu.
- 4.7. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 12 Hydref. Anfonwyd e-bost gyda copi o'r cynllun i'r Ymgynghoreion Statudol. Roedd hyn yn cynnwys yr holl ysgolion, Cyrff Llywodraethu, Awdurdodau Cyfagos, yr Esgobaeth, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg a darparwyr addysg bellach. Cyhoeddwyd y cynllun ar dudalen Ymgynghori'r Cyngor hefyd.
- 4.8. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Rhagfyr 2022. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad dros gyfnod o 8 wythnos wedi bod yn eithaf isel er bod pob ysgol, corff llywodraethu a budd-ddeiliad statudol wedi derbyn copi o'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori a chyhoeddi'r cynllun ar wefan y Cyngor. Yn ogystal â hyn, ymgynghorodd Sir Ddinbych gyda disgyblion am y cynllun.
- 4.9. Mae'r adborth i'r cynllun gan yr ymgynghoreion yn cynnwys cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y nod o ehangu addysg Cyfrwng Cymraeg ond codwyd pryder o ran nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i weithredu'r cynllun, a yw'r cynllun yn ddigon uchelgeisiol ac os yw'r cynllun yn canolbwyntio gormod ar Sir Ddinbych wledig.
- 4.10. Bydd y cynllun a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru'n arwain y polisi dros gyfnod o ddeng mlynedd. Bydd cyfleoedd pellach ar gyfer ymgynghori yn cael eu harwain yn ôl gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn seiliedig ar unrhyw gynigion unigol i newid sy'n cael eu cynnig yn ystod cyfnod oes y cynllun.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r cynllun newydd yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes dyraniad cyllid arbennig wedi'i nodi ar gyfer darparu'r cynllun ar hyn o bryd. Bydd y ffrydiau cyllid presennol yn cael eu defnyddio gan y Cyngor a'i bartneriaid i ddarparu'r amcanion.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Mae gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd y potensial i gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, cymunedau cydlynol, Sir Ddinbych fwy cyfartal a Sir Ddinbych fwy ffyniannus.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant a'r iaith Gymraeg a Phwyllgor Llywio'r iaith Gymraeg. Mae'r cynllun yn destun ymgynghoriad tan 7 Rhagfyr 2022.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol yn ymwneud â chyflwyno'r cynllun strategol i Lywodraeth Cymru, bydd goblygiadau ariannol wrth weithredu'r cynllun. Mae'n dda gweld y bydd y gwasanaeth yn ceisio defnyddio ffrydiau cyllid presennol i ddarparu amcanion y cynllun.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg sydd ynghlwm â'r cynllun newydd yw diffyg gweithredu gan fudd-ddeiliaid o ran rhoi'r amcanion ar waith. Mae'r holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwmo i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r darpariaethau mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') a'r rheoliadau a wnaed o dan y ddeddf.